AMGUEDDFA CYMRU

# Amgueddfeydd yn Ysbrydoli Atgofion

## Adroddiad Sylfaenol: Crynodeb Gweithredol

amgueddfa.cymru
museum.wales

## Pwrpas yr Adroddiad



Project partneriaeth tair mlynedd yw Amgueddfeydd yn Ysbrydoli Atgofion (MIMs) rhwng Amgueddfa Cymru a Chymdeithas Alzheimer Cymru sy'n defnyddio amgueddfeydd a chasgliadau Amgueddfa Cymru i wella iechyd a lles pobl sydd wedi'u heffeithio gan ddementia

Crynodeb yw'r ddogfen hon o'r Gwerthusiad Gwaelodlin a gynhyrchwyd gennym rhwng Awst a Tachwedd 2022, i ddangos lle rydyn ni arni nawr yn darparu amgylchfyd cefnogol i bobl sydd wedi'u heffeithio gan ddementia. Dyma ni'n defnyddio tystiolaeth wedi'i gasglu mewn adolygiadau hygyrchedd safleoedd blaenorol, yn ogystal â sgyrsiau a chyfarfodydd diweddar gyda phobl sy'n byw gyda dementia, gofalwyr di-dâl, staff y sector gofal, staff y sector treftadaeth, gwirfoddolwyr a sefydliadau cynrychioliadol.

## Y dystiolaeth a gasglwyd

Gan ddefnyddio nifer o ddulliau gwahanol, canolbwyntiodd y sgyrsiau a'r cyfarfodydd ar:

- y profiad o gael mynediad, ac ymwneud ag amgueddfeydd a chasgliadau Amgueddfa Cymru
- hyder gofalwyr (cyflogedig a di-dâl) wrth ddefnyddio adnoddau amgueddfa gyda'r bobl sydd yn eu gofal
- ymwybyddiaeth bresennol o adnodau amgueddfa, ac os yw amgueddfeydd yn cael eu gweld fel llefydd all wella iechyd a lles.

Gofynnwn hefyd sut allai Amgueddfa Cymru gefnogi'r partneriaid yn eu rôl gefnogol ar gyfer pobl sy'n byw gyda dementia.

Gall y gwelliannau posib, a'r llwyddiannau presennol, gael eu trefnu'n bedair thema fras:

- Yr amgylchfyd corfforol
- Mynediad at wybodaeth
- Staff yr Amgueddfa
- Sesiynau / gweithgareddau

O ystyried bod peth o'r wybodaeth wedi ei gasglu mor bell yn ôl â 2015, rydym wedi gwneud rhai gwelliannau yn y meysydd dan sylw, gan gynnwys newid arwyddion, codi ymwybyddiaeth ymhlith staff, a datblygu adnoddau a chyfleon. Er bod gwelliannau wedi cael eu gwneud, mae Amgueddfeydd yn Ysbrydoli Atgofion nawr yn rhoi cyfle i barhau â'r gwaith ac adeiladu arno.

## Cysylltiadau a phartneriaethau

I ddeall ein cyswllt presennol â'r gymuned, mae partneriaid presennol Amgueddfa Cymru wrth ddatblygu'r agenda wedi cael eu mapio; o'r lleol, i'r rhanbarthol a'r cenedlaethol. Mae'r rhestr hwn o sefydliadau, rhwydweithiau a grwpiau yn dangos amrywiaeth yn ein partneriaethau, yn ogystal â bylchau sydd angen eu llenwi.




## Argymhellion

Wedi dadansoddi'r dystiolaeth a gasglwyd dros y misoedd a'r blynyddoedd diwethaf, rydym wedi nodi cyfres o argymhellion i'w hystyried wrth i'r project ddatblygu. Mae rhain yn amrywiol iawn, ac wedi eu trefnu'n bum thema fras:

- Lleoliad a chasgliadau: goleuo, arweiniad, mynediad at wybodaeth, gofod ffisegol, ymwybyddiaeth ac allestyn
- Cyfranogi a hwyluso gweithredol: darparu amrywiaeth o gyfleoedd hygyrch i bobl ymgysylltu
- Cysylltiadau: pwysigrwydd meithrin perthynas gref a gwirioneddol â chymunedau
- Codi ymwybyddiaeth: hyrwyddo'r gwaith ym mhob achos posib, a darparu'r newyddion diweddaraf yn rheolaidd
- Rôl yn y gymuned: staff 'Ffrindiau Dementia' i ddarparu sesiynau ar gyfer y gymuned ehangach ac i gefnogi gwaith lleol sy'n methu ateb y galw cynyddol

## Cyfleoedd

Yn ystod ein sgyrsiau a chyfarfodydd gyda phobl sy'n byw gyda dementia, gofalwyr di-dâl, staff y sector gofal, staff y sector treftadaeth, gwirfoddolwyr a sefydliadau cynrychioliadol, roedd ymateb hynod bositif i effaith posibl y project.

At hyn, cynigiwyd nifer o gyfleoedd am gefnogaeth a chyhoeddusrwydd i ni gan bartneriaid o bob cwr o Gymru, gan gynnwys gwahoddiadau i ymuno â rhwydweithiau staff gofal, defnydd o leoliadau i gynnal gweithgareddau, a gwahoddiadau i siarad mewn cynadleddau yn y dyfodol.

**Rydyn ni'n edrych ymlaen at barhau i gydweithio gyda'n partneriaid, gan adeiladu perthynas waith gref, dilyn unrhyw argymhellion, a manteisio ar bob cyfle.**